## Cyngor Partneriaeth Cymru: 25 Tachwedd 2024

# Eitem 3 ar yr agenda: Diweddariad ar Symleiddio System Budd-daliadau Cymru a Thrywydd Cam Un – Dan arweiniad Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip a'r Cynghorydd Hunt, Llefarydd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, gyda chymorth Fran Targett, Cadeirydd Grŵp Llywio Symleiddio Budd-daliadau Cymru

**Pwrpas:**

1. Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd tuag at Symleiddio System Budd-daliadau Cymru a chyflwyno trywydd Cam Un, sydd wedi cael ei ddatblygu gan y Grŵp Llywio

**Angen penderfyniad:**

2. Gofynnir i Gyngor Partneriaeth Cymru:

- Nodi'r cynnydd ers cyhoeddi Siarter Budd-daliadau Cymru
- Cytuno ar Drywydd Cam Un Symleiddio Budd-daliadau Cymru a'i gymeradwyo'n ffurfiol.

**Y Cefndir a'r cynnydd hyd yma:**

3. Yng nghyfarfod y Cyngor Partneriaeth ym mis Tachwedd y llynedd, cafodd y dull arfaethedig o Symleiddio rhaglen Budd-daliadau Cymru ei rannu, a chytunwyd ar y canlynol:

   - Cytuno ar ddrafft terfynol y Siarter ar gyfer darparu Budd-daliadau Cymru (Atodiad A) a'i gymeradwyo'n ffurfiol.
   - Cytuno i sefydlu grŵp llywio allanol i ddatblygu cynllun gweithredu.
   - Enwebu cynrychiolwyr ar gyfer y grŵp llywio allanol. Anfon enwebiadau (gan gynnwys manylion cyswllt) at yr ysgrifenyddiaeth.

4. Ers cymeradwyo Siarter Budd-daliadau Cymru yn ffurfiol yng nghyfarfod Cyngor Partneriaeth Cymru ym mis Tachwedd y llynedd, rydyn ni wedi gweld cynnydd sylweddol o ran penderfynu ar ffordd ymlaen. Cafodd y Siarter ei lansio'n ffurfiol ym mis Chwefror eleni gydag ymweliadau ar y cyd gan y Cynghorydd Hunt ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip yn awdurdodau lleol Torfaen, Sir Gaerfyrddin ac Ynys Môn.

5. Mae Grŵp Llywio dan arweiniad Cadeirydd annibynnol, Fran Targett, wedi cwrdd yn rheolaidd ers mis Chwefror i drafod natur gymhleth y gwaith hwn ac i adeiladu rhaglen waith i gyflawni'r nod terfynol. Cafodd aelodau'r Grŵp Llywio eu dewis yn ofalus i sicrhau cydbwysedd rhwng awdurdodau lleol a'r trydydd sector. Mae hyn i gydnabod yr angen i sicrhau bod llais yr unigolion sy'n hawlio cymorth ariannol yn parhau i gael lle blaenllaw, er mwyn cyd-fynd ag ysbryd Siarter Budd-daliadau Cymru.

6. Cafodd chwe ffrwd waith eu nodi gan y Grŵp Llywio a'u comisiynu i ddechrau gweithio ym mis Mehefin 2024 i ddiffinio camau gweithredu â blaenoriaeth a fyddai'n ofynnol i sicrhau y bydd budd-daliadau Cam Un (hy Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor, Prydau Ysgol am Ddim a'r Grant Hanfodion Ysgolion) yn cael eu darparu'n gydlynol erbyn mis Ebrill 2026.

7. Mae holl gofnodion a Chylch Gorchwyl y Grŵp Llywio yn cael eu cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru, [Grŵp Llywio Symleiddio Budd-daliadau Cymru | LLYW.CYMRU]

8. Mae pob awdurdod lleol wedi enwebu Uwch-swyddog Cyfrifol sy'n gyfrifol am fwrw ymlaen â'r gwaith hwn yn eu hawdurdod lleol. Mae'r Grŵp Uwch-swyddogion Cyfrifol yn darparu arbenigedd ac arweiniad hanfodol i'r Grŵp Llywio, ac yn chwarae rôl gynghori allweddol i'r Grŵp Llywio a'r ffrydiau gwaith. Mae'r grŵp hwn wedi cyfarfod bob deufis ers ei sefydlu ym mis Mai 2024.

**<u>Trywydd Cam Un</u>**

9. Mae'r Grŵp Llywio wedi datblygu trywydd ar gyfer Cam Un y rhaglen. Mae'r trywydd yn ymwneud â Cham Un yn unig (hyd at fis Ebrill 2026) – lle rydyn ni'n canolbwyntio ar dri budd-dal allweddol gan awdurdodau lleol (Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor, Prydau Ysgol am Ddim a'r Grant Hanfodion Ysgolion) i wella mynediad at y budd-daliadau hyn fel cam cyntaf sylweddol cyn inni symud ymlaen i gamau yn y dyfodol, a fydd yn cynnwys Budd-daliadau eraill Cymru.

10. Mae'r trywydd yn trosi'r ymrwymiadau yn y Siarter yn amcanion strategol ac yn amlinellu camau gweithredu ac allbynnau blaenoriaeth lefel uchel yn erbyn yr amcanion hynny. Y bwriad yw cael dogfen ystwyth y gellir adeiladu arni wrth i'r gwaith fynd rhagddo. Y dyddiad targed ar gyfer cwblhau Cam Un yw **mis Ebrill 2026**.

11. Rhaid dweud nad nod y trywydd yw rhagnodi'r holl weithgareddau a fydd yn cael eu cyflawni fel rhan o'r rhaglen, ond yn hytrach, darparu cyfeiriad lefel uchel gyda'r bwriad o symud y gwaith o ddarparu Budd-daliadau Cymru yn nes at y nod terfynol. Ceir cydnabyddiaeth y bydd y trywydd yn datblygu ac y bydd y blaenoriaethau a'r allbynnau'n cael eu mireinio wrth i'r gwaith fynd rhagddo.

12. Mae'r trywydd wedi cael ei adolygu gan aelodau'r Grŵp Uwch-swyddogion Cyfrifol a'r ffrydiau gwaith.

13. Ar ôl ei gymeradwyo, bydd Trywydd Cam Un yn cael ei gyhoeddi a bydd y gwaith yn dechrau ar unwaith ar yr allbynnau yn y cynllun.

**<u>Materion i'r Cyngor Partneriaeth eu hystyried:</u>**

14. Gofynnir am farn y Cyngor Partneriaeth am y canlynol:

    I. Cynnwys Trywydd Cam Un Symleiddio Budd-daliadau Cymru;

    II. a sut gall Llywodraeth Cymru a phartneriaid eraill helpu awdurdodau lleol i gyflawni nod Cam Un yn llwyddiannus.